**PWYLLGOR AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG**

**Ymateb i adroddiad Senedd Ewrop ar glwy'r traed a'r genau**

**5 Mawrth 2003**

**1. Diben**

1.1. Diben y papur hwn yw hysbysu'r Pwyllgor ynghylch adroddiad Senedd Ewrop ar glwy'r traed a'r genau a'r Gyfarwyddeb ddrafft gan yr UE a gofyn am ymateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru iddynt.

**2. Crynodeb/Argymhellion**

2.1 Dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy ymgynghori ynghylch cynnwys Cyfarwyddeb ddrafft Ewrop.

**3. Yr Amserlen**

3.1 Cyflwynir y papur hwn ar gais y Pwyllgor. Cymeradwyodd y Gweinidog y cais hwn.

**4. Y Cefndir**

4.1 Cyfeiria'r cais am y papur hwn at yr adroddiad a gynhyrchwyd gan Bwyllgor Dros Dro Senedd Ewrop. Serch hynny, ystyriwyd yr adroddiad mewn Cyfarfod Llawn o Senedd Ewrop ac mae wedi arwain at Gyfarwyddeb ddrafft fanwl gan y Gymuned Ewropeaidd ynghylch "Community measures for the control of foot-and-mouth disease and amending Directive 92/46/EEC.' Bydd y papur hwn yn cyfeirio at yr adroddiad ac at y Gyfarwyddeb ddrafft sy'n deillio ohono.

**Adroddiad Pwyllgor Dros Dro Senedd Ewrop**

4.2 Cyhoeddodd Senedd Ewrop ar 16 Ionawr 2002 y byddai'n sefydlu pwyllgor dros dro i archwilio dulliau Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth yr Alban o ymdrin â lledaeniad clwy'r traed a'r genau yn 2001. Yng Nghymru, dirprwyd gwaith rheoli'r clwy i'r Cynulliad gan DEFRA o dan delerau cytundeb. Dim ond unwaith yr ymwelodd y Pwyllgor â Chymru a chynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus a chyflwynwyd tystiolaeth gan ffermwyr, aelodau o'r gymuned, busnesau lleol, Cyngor Sir Powys ac eraill bryd hynny. Ymwelodd Aelodau'r Pwyllgor ag Epynt yn ogystal a gwrandawyd ar sylwadau Grwp Gweithredu Epynt.

4.3 Bu i'r Arglwydd Whitty gyfarfod â'r Pwyllgor ar 12 Medi er mwyn gwrando ar anerchiad gan Ysgrifennydd Gwladol DEFRA. Serch hynny, roedd yn rhaid i Weinidogion Cymru ofyn yn benodol am gyfarfod â hwy. Yn ystod y cyfarfod hwn cyflwynodd Carwyn Jones dystiolaeth i'r Pwyllgor Dros Dro yn Strasbourg ym mis Gorffennaf 2002.

4.4 Cyflwynwyd yr Adroddiad mewn cyfarfod llawn o Senedd Ewrop ar 17 Rhagfyr ac fe'i mabwysiadwyd. Roedd yr

Adroddiad yn cynnwys nifer o bwyntiau i'w trafod, ond cydnabyddwyd nad oedd difrifoldeb lledaeniad y clwy yn 2001 erioed wedi'i weld o'r blaen. ac y byddai'n anaddas llunio cynllun wrth gefn i ymdrin â lledaeniad o'r fath. Cydnabyddwyd yn ogystal fod Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth y Comisiwn wedi dod i'r casgliad fod ymateb y DU i ledaeniad y clwy wedi bod yn effeithiol. Nododd yr adroddiad yn ogystal fod y DU wedi llwyddo i atal y clwy rhag lledu i rhannau mawr o'r wlad.

4.5 Yr hyn a feirniadwyd fwyaf oedd pa mor annigonol oedd y polisi gwybodaeth; effeithiolrwydd y broses didol a difa a gynhaliwyd ar raddfa fawr o ran atal lledaeniad y clwy; pa mor hwyr y gofynnwyd am gymorth gan y fyddin; dulliau gwaredu'r carcasau a'r y ffordd yr aethwyd yn erbyn deddfwriaeth ynghylch lles anifeiliaid. Cwestiynwyd yn ogystal pa mor gyfreithiol oedd y lladd 3km.

4.6 Pwysleisia'r adroddiad y dylid ystyried brechu ar ddechrau lledaeniad. Dyma gasgliadau ymchwiliadau Anderson a Follett yn ogystal.

## Cyfarwyddeb Ddrafft y Gymuned Ewropeaidd

### Cyffredinol

4.7 Mae cynnig y Comisiwn ar gyfer Cyfarwyddeb Gyngor ynghylch mesurau i reoli clwy'r traed a'r genau (2002/736) yn diweddaru Cyfarwyddeb flaenorol yr UE ynghylch Clwy'r Traed a'r Genau (85/511), gan ystyried datblygiadau gwyddonol a'r profiad o waredu'r clwy yn 2001.

4.8 Diben y cynnig yw galluogi'r UE i gynnal ei statws a gydnabyddir yn rhyngwladol o "yn glir o glwy'r traed a'r genau heb frechu". Byddai'r dull presennol o waredu Clwy'r Traed a'r Genau drwy "ddifa" yn parhau ond mae'r cynnig yn rhoi mwy o bwyslais ar swyddogaeth brechiadau brys fel opsiwn rheoli i'w ddefnyddio ar y cyd â difa o dan rai amgylchiadau.

**4.9 Adran 1.** Mae Cyfarwyddeb newydd arfaethedig yr UE yn nodi'r mesurau rheoli lleiaf y mae'n rhaid i Aelod-Wladwriaethau eu mabwysiadu yn erbyn clwy'r traed a'r genau, ac mae Erthygl 1 yn pwysleisio y gallant fabwysiadu mesurau mwy llym. Dywed y cynnig y dylid cymryd camau gweithredu ar frys cyn gynted ag y ceir achos tybiedig o glwy'r traed a'r genau fel y gellir rhoi mesurau brys a rheoli effeithiol ar waith os bydd angen. Mae'n rhaid i Glwy'r Traed a'r Genau gael ei gadarnhau gan brofion labordy. Amlinellir y gweithdrefnau mewn Atodiad.

**4.10** Mae **Adran 2** y cynnig yn ymdrin â mesurau sydd i'w mabwysiadu os amheuir bod clwy'r traed a'r genau yn lledu, gan gynnwys rheoli symudiadau. Dywed Erthygl 8 y cynnig y gallai anifeiiaid y credir bod y clwy arnynt gael eu dethol a'u difa rhag ofn.

**4.11** Mae **Adran 3** y cynnig yn ymdrin â mesurau sydd i'w cymryd os bydd lledaeniad o glwy'r traed a'r genau yn cael ei gadarnhau, gan gynnwys dethol a difa anifeiliaid heintus, gwaredu carcysau a'r angen i lanhau a diheintio o'r herwydd. Mae Erthygl 13 yn ymdrin â gofynion ymholiadau epidemiolegol i bennu graddfa'r clwy a pha mor debygol ydyw i ledaenu. Mae Erthygl 14 yn ymdrin â didol a difa "cysylltiadau peryglus" a golyga ei bod yn ofynnol gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol ar gyfer brechu brys mewn ardal sydd o leiaf maint yr Ardal Wylio (cylch 10km) yn syth ar ôl y cadarnheir yr achos cyntaf o Glwy'r Traed a'r Genau os credir bod angen. Ymdrinnir â'r ffactorau i'w hystyried wrth gyflwyno rhaglen frechu frys yn Adran 8 y cynnig.

**4.12** Mae **Adran 4** y cynnig yn ymdrin â mesurau i'w rhoi ar waith dan amgylchiadau arbennig, ac yn arbennig yn achos swau, parciau bywyd gwyllt a bridiau prin ac mae hefyd yn cyfeirio at angen posibl i frechu achosion arbennig o'r fath ar frys.

**4.13 Adran 5.** Os yw daliad yn cynnwys dwy neu fwy uned gynhyrchu ar wahân, gellir atal didol a difa cyn belled ag y gellir profi bod yr anifeilaid yn iach. Mae'r Adran hon hefyd yn diffinio'r gofyn i arolygu daliadau cysylltiedig.

**4.14** Mae **Adran 6** yn ymdrin â sefydlu ardal ddiogelu yn seiliedig ar gylch o leiaf 3km ac ardal wylio yn seiliedig ar gylch o leiaf 10km os bydd Clwy'r Traed a'r Genau yn lledu. Ceir gofynion o ran trin cig a llaeth a gynhyrchir yn yr ardaloedd ddiogelu ac yn yr ardaloedd gwylio. Mae'r triniaethau yn cynnwys triniaeth wres, tynnu esgyrn oddi ar gig a chynnyrch cig a'u haeddfedu a phasteureiddio llaeth. Mae'r Adran hon hefyd yn ymdrin â chyfyngiadau o ran clystyrau a symudiadau, trafnidiaeth a mesurau mewn perthynas â chynnyrch anifeiliaid a bwydydd.

**4.15** Mae **Adran 7** y cynnig yn ymdrin â rhanbarthu, rheoli symudiadau ac adnabod, ar y sail y byddai rhanbarthu yn hwyluso prosesau cyflwyno mesurau llym o ran rheoli'r clwy mewn rhannau arbennig o'r Gymuned heb beryglu buddiannau cyffredinol y Gymuned. Mae Erthygl 47 yn hwyluso prosesau symud anifeiliaid a allai gael eu heintio gan Glwy'r Traed a'r Genau o'u daliad cyn belled ag y gellir olrhain eu symudiadau yn gyflym.

**Brechu**

**4.16** Mae **Adran 8** y cynnig yn ymdrin â mater brechu brys. Yn sgîl y Gyfarwyddeb mae'n ofynnol didol a difa anifeiliaid a allai gael eu heintio ar ffermydd heintus, a hefyd cysylltiadau peryglus. Ystyrir brechu yn rhywbeth y dylid ei wneud â da byw eraill ar ffermydd cyfagos yn yr ardal nad ydynt wedi'u hasesu fel cysylltiadau peryglus. Gellir penderfynu cyflwyno brechiadau brys os credir y bydd y clwy yn lledu, neu os credir bod Aelod-Wladwriaethau eraill mewn perygl. Byddai penderfyniad o'r fath gan amlaf yn cael ei wneud gan weithdrefn Pwyllgor Sefydlog, un ai ar gais yr Aelod-Wladwriaethau yr effeithir yn uniongyrchol arnynt, Aelod-Wladwriaethau sydd mewn perygl, neu gallai'r Comisiwn ei hun ysgogi trafodaeth ynghylch y defnydd o frechiadau brys. Ceir darpariaeth yn ogystal ar gyfer Aelod-Wladwriaethau i gyflwyno brechiadau brys. Gall ei benderfyniad gael ei adolygu a'i gadarnhau yn ddiweddarach gan y Pwyllgor Sefydlog ar y Gadwyn Fwyd ac Iechyd Anifeiliaid.

4.17 Awgryma'r gyfarwyddeb ddrafft wahanol feini prawf ar gyfer penderfyniadau o ran cymhwyso brechiadau amddifynnol a chanllawiau ynghylch brechiadau brys. Mae'r meini prawf i'w hystyried yn cynnwys: anallu i ddidol a difa o fewn y targedau 24/48 awr; os ceir llawer iawn o dda byw yn yr ardal dan sylw; os oes moch yn yr ardal; os rhagwelir y bydd y clwy yn lledu drwy'r aer; os nad yw tarddiad y lledaeniad yn hysbys; os yw nifer yr achosion yn cynyddu'n gyflym ac os yw "rhanbarthu" ar ôl brechu yn dderbyniol.

4.18 Pennir yr amodau manwl sy'n berthnasol yn yr ardal frechu yn Erthyglau 54, 55 a 58 ac amlinellir triniaethau ar ôl brechu o ran cig a chynnyrch cig a llaeth a chynnyrch llaeth yn yr Atodiadau. Bydd rhai mesurau yn ofynnol hyd nes y cyhoeddir statws dim haint, ac o dan rai amgylchiadau bydd yn rhaid rhoi marc arbennig ar gig a chynnyrch cig. Mae'r triniaethau yn cynnwys triniaeth wres, tynnu esgyrn oddi ar gig a chynnyrch cig a'u haeddfedu a phasteureiddio llaeth gan anifeiliaid sydd wedi'u brechu. Bwriedir cynnal cyfarfod â Rhanddeiliaid yng Nghymru ar Fawrth y 6ed er mwyn trafod y defnydd posibl o frechiadau os bydd y clwy yn lledu yn y dyfodol. Bwriedir trafod yn arbennig effeithiau posibl rheoliadau brechu.

**4.19** Mae **Adran 9** yn amlinellu darpariaethau o ran adennill statws yn rhydd o glwy'r traed a'r genau a heintiau. Ymdrinnir â'r rhain yn y cynnig drafft. Dibynna'r gofynion ar a yw brechiadau brys wedi'u defnyddio, ac os ydynt, a oeddent yn frechiadau "difa" (i ladd) neu'n frechiadau "diogelu" (i fyw). Adlewyrcha'r gofynion hyn God yr 'Office International des Epizooties' (OIE) a ddiwygiwyd yn 2002 ac sydd felly yn wahanol i'r rheolau a oedd yn berthnasol yn ystod lledaeniad 2001. Gellir adennill statws 'dim clwy' dri mis ar ôl yr achos diwethaf os na ddefnyddir brechiad neu ar ôl lladd yr holl anifeiliaid a frechwyd os defnyddir brechiadau "difa" i ladd. Os defnyddir polisi o ddifa a rhoi brechiadau "diogelu", gellir adennill statws 'dim clwy' ar ôl chwe mis cyn belled ag y cwblheir arolygiad serolegol sy'n profi nad oes haint yn bodoli ymysg yr anifeiliaid eraill sydd wedi'u brechu. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau

manwl ar gyfer dychwelyd i statws 'dim clwy' wedi'u pennu mor belled ac nid yw'r prawf NSP (sy'n ofynnol i wahaniaethu rhwng anifeiliaid lle mae'r gwrthgyrff yn bresennol yn sgîl brechiad ac nid yn sgîl dod i gysylltiad â'r feirws) wedi'i ddilysu'n llwyr mor belled.

**4.20** Mae **Adran 10** yn amlinellu'r gofynion ar gyfer labordai sy'n ymdrin â feirws clwy'r traed a'r genau. Rhestrir y labordai sydd wedi'u hawdurdodi i wneud hynny mewn Atodiad, a hefyd y safonau caeth o ran bioddiogelwch y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â hwy.

**4.21** Mae **Adran 11** yn cyfeirio at Atodiadau sy'n amlinellu'r safonau a'r profion sy'n gysylltiedig â chanfod Clwy'r Traed a'r Genau ac afiechydon ceudodol.

**4.2.2** Mae **Adran 12** ac Atodiad XVII y cynnig drafft yn amlinellu'r gofyn am gynlluniau manwl wrth gefn y mae'n rhaid iddynt gynnwys "y sefyllfa waethaf bosibl" a hefyd manylion ynghylch sut y byddai'r brechiadau brys yn cael eu rhoi, ac yn arbennig mewn rhanbarthau lle ceir y niferoedd uchaf o dda byw. Rhoddir blaenoriaeth i bryderon amgylcheddol sy'n gysylltiedig â gwaredu carcysau.

Golyga Erthygl 73 y cynnig ei bod yn ofynnol adolygu cynlluniau wrth gefn yn rheolaidd, yn sgîl ymarferion "pryderon byw" yn yr Aelod-Wladwriaethau. Mae'n rhaid cyflwyno canlyniadau'r ymarferion hyn i'r Comisiwn. Mae'n rhaid diweddaru cynlluniau wrth gefn o leiaf bob pum mlynedd ac yn y dechrau bydd yn rhaid i Aelod-Wladwriaethau gyflwyno fersiynau diwygiedig eu cynlluniau wrth gefn i'r Comisiwn o fewn chwe mis i'r Gyfarwyddeb ddod i rym.

**4.23** Cyfeiria **Adran 13** at y gofyn i sefydlu canolfannau cenedlaethol a lleol i reoli'r clwy, ac amlinella yn ogystal eu swyddogaethau, eu dyletswyddau a'u gofynion technegol. Ymdrinnir yn ogystal â'r gofyn i Aelod-Wladwriaethau greu grwp arbenigol gweithredol parhaol i sicrhau eu bod yn barod yn erbyn lledaeniad o Glwy'r Traed a'r Genau.

**4.24** Mae **Adran 14** yn ymdrin â banciau antigen a brechu. Mae'n awdurdodi Aelod-Wladwriaethau i gynnal cronfeydd o antigenau neu frechiadau parod. Er mwyn gwarchod yn erbyn argyfyngau, mae'r Gymuned wedi sefydlu cronfeydd o antigen feirws Clwy'r Traed a'r Genau wedi'i lonyddu a gedwir mewn banciau antigen penodedig. Mae Erthygl 83 yn ymdrin â mynediad atynt. Pennir y trefniadau o ran creu, potelu, labelu a dosbarthu brechiadau yn gyflym yn Erthygl 82 ac mae Erthygl 84 yn ymdrin â gofynion o ran profion annibynnol o gryfder brechiadau.

**4.25** Mae **Adran 15** yn gwahardd bwydo gwastraff arlwyo i anifeiliaid sy'n debygol o gael eu heintio gan Glwy'r Traed a'r Genau ar draws yr UE. Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol hyd nes y bydd deddfwriaeth ar wahân gan yr UE yn dod i rym ym mis Ebrill 2003. Mae gwaharddiad o'r fath eisoes yn bodoli yn y DU.

**Brechu Brys**

4.26 Mae gwaith wrthi'n cael ei wneud i sefydlu sut y gallai brechu weithio. Mae DEFRA yn arwain mewn perthynas â hyn. Mae'r materion allweddol i'w hystyried yn cynnwys:

- Y brechiadau priodol sydd ar gael
- Bod nifer digonol o staff cymwys sydd wedi derbyn hyfforddiant ar gael i gynnal y rhaglen frechu
- Y meini prawf ar gyfer pennu ffiniau'r ardal frechu
- Ystyriaethau ymarferol yn ymwneud â defnyddio cig anifeiliaid sydd wedi'u brechu
- Meini prawf manwl a gymeradwyir yn rhyngwladol ynghylch dychwelyd i statws 'dim clwy' ar ôl brechu.
- Y cynnydd o ran dilysu'r prawf NSP i wahaniaethu rhwng anifeiliaid sydd â gwrthgyrff i frechiadau a'r rhai sydd wedi dod i gysylltiad â'r feirws yn y cae.

Er mwyn i frechiad fyw i weithredu, byddai angen gadael i gig anifeiliaid wedi'u brechu ddod i mewn i'r gadwyn fwyd ddynol. Mae Cyfarwyddeb ddrafft y Comisiwn yn caniatáu ar gyfer hyn cyn belled â bod yr esgyrn wedi'u tynnu o'r cig a'i fod wedi aeddfedu neu bod triniaethau gwres wedi'u defnyddio. Er y gallai hyn fod yn economaidd i gig moch a chig eidion, ceir pryder ynghylch y ffaith nad yw mor economaidd i gig oen, ac yn arbennig oen mynydd ysgafn, o ystyried yr holl esgyrn o'u cymharu â'r prinder cig. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi hysbysu DEFRA ynghylch ei bryderon.

**Cynllun Wrth Gefn Cymru**

4.27 Yn sgîl Cyfarwyddeb yr UE (Adran 12) mae'n ofynnol i aelod-wladwriaethau gynhyrchu cynlluniau wrth gefn fel y gellir rheoli'n effeithiol unrhyw ledaeniad yn y dyfodol o glwy'r traed a'r genau. O dan Ddeddfau Iechyd Anifeiliaid 1981 a 2002 mae gan DEFRA gyfrifoldeb statudol i ymdrin ag unrhyw ledaeniad o Glwy'r Traed a'r Genau. Serch hynny, cytunwyd â DEFRA mai Llywodraeth Cynulliad Cymru fyddai'n ymdrin ag agweddau gweithredol ar unrhyw ledaeniad yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a DEFRA wrthi'n cynnal trafodaethau gan ystyried yr achos dros drosglwyddo pwerau pellach o ran iechyd anifeiliaid i'r Cynulliad, gan gynnwys clwy'r traed a'r genau. Mae Cynllun Wrth Gefn Cymru yn amlinellu sut bydd y Cynulliad yn ymdrin â'r agweddau gweithredol ar achosion o Glwy'r Traed a'r Genau yn y dyfodol. Mae Cynllun Cymru yn ychwanegol at y trefniadau strategol a thactegol manwl a gynhwysir yng Nghynllun Wrth Gefn DEFRA.

4.28 Paratowyd Cynllun Cymru drwy ymgynghori â rhanddeiliaid, mudiadau â diddordeb a phartneriaid a mudiadau a fyddai'n chwarae rhan flaenllaw os byddai'r clwy yn lledu yn y dyfodol. Ymgynghorwyd â'r cyhoedd ynghylch fersiwn drafft Cynllun Cymru rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2002. Mae'r Cynllun wedi'i ailddrafftio ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori ac ymateb Llywodraethau'r DU ar y cyd i'r Ymchwiliad ynghylch y ffordd yr ymdriniwyd â lledaeniad y clwy yn 2001 a gyhoeddwyd ar 6 Tachwedd 2002. Bydd Rhanddeiliaid a Phartneriaid yn cael cyfle i ystyried fersiwn diwygiedig y ddogfen a bydd yn cael ei thrafod mewn cyfarfod â hwy ar 18 Chwefror.

4.29 Bydd Cynllun Wrth Gefn y DU yn cael ei gyflwyno i'r Senedd ar 24 Mawrth a bydd Cynllun Cymru yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad ar 25 Mawrth.

4.30 Bydd y Cynlluniau Wrth Gefn yn cael eu hadolygu a'u diwygio fel y bo'n briodol. Cynhelir ymarferion er mwyn profi'r gwahanol systemau a'r gweithdrefnau a gynhwysir yn y Cynlluniau.

**Cydymffurfio**

5.1 Yn sgîl Adran 18 Deddf Iechyd Anifeiliaid 2002 mae'n ofynnol i gynllun wrth gefn Cymru ynghylch Clwy'r Traed a'r Genau gael ei gynhyrchu a'i gyflwyno i'r Cynulliad. Dirprwywyd swyddogaethau'r Cynulliad yn sgîl Deddf 2002 i Brif Weinidog Cymru yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Ionawr 2003. O dan adran 62 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 gall Prif Weinidog Cymru ei dirprwyo i'r portffolio Datblygu Gwledig. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb. Mae Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad yn fodlon. Cyfeirnod: CME/2288/02/03

**Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

Nodi'r adroddiad a chyflwyno sylwadau fel y bo'n briodol.

**Cyswllt**

Tony Joss, Rheoli'r PAC, Cangen Cynllun Wrth Gefn Clwy'r Traed a'r Genau, ffôn 2068-1328